NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Falfoplasti drwy'r croen gan ddefnyddio balŵn i drin stenosis aortig mewn ffetysau

09 Mai 2018

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir gwneud y driniaeth hon. Mae hyn am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Mae stenosis aortig yn golygu bod y falf rhwng prif siambr pwmpio'r galon a'r brif rydweli sy'n cyflenwi gwaed i'r corff (yr aorta) yn culhau. Mae'n lleihau faint o waed sy'n llifo allan o'r galon ac o amgylch y corff. Gall stenosis aortig fod yn bresennol mewn baban cyn iddo gael ei eni. Mae'r driniaeth yn cynnwys gosod tiwb tenau drwy abdomen y fam i mewn i'r groth, yna drwy wal brest y baban ac i mewn i'w galon. Mae balŵn sydd wedi'i chysylltu â'r cathetr yn cael ei llenwi ag aer, sy'n helpu i ledaenu'r falf. Yna, tynnir yr aer o'r falŵn a'i thynnu allan. Y nod yw helpu'r galon i ddatblygu'n iawn.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2953-5

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights